**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 5 Hydref 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** Jill Burgess (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| O G James | M B Lewis | L G Thomas |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Michaela Jones | Janet Pardue-Wood | Margaret Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Mike Lewis

---

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**11 Recriwtio Cynghorydd Cymuned / Tref i'r Pwyllgor Safonau.**

Gwnaeth y Pwyllgor gyfweld ag un ymgeisydd ar gyfer rôl cynrychiolydd y Cyngor Cymuned/Tref ar y Pwyllgor Safonau.

Atebodd yr ymgeisydd nifer o gwestiynau a oedd wedi'u gosod.

**Penderfynwyd** argymell CR i'r cyngor i'w benodi'n gynrychiolydd y Cyngor Cymuned/Tref ar y Pwyllgor Safonau.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.33 pm

**Cadeirydd**